# Polisi Amgylchiadau Lliniarol Rhaglen Pearson Addysg Uwch Coleg Gwent

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb:** | **Awst 2025** |
| **Cymeradwywyd gan:** | **Tîm Rheolaeth y Coleg** |
| **Dyddiad y Cymeradwywyd:** | **Awst 2025** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Addysg Uwch** |
| **Dyddiad Adolygu:** | **Awst 2027** |

| **Cyhoeddwyd ar:** | **Y Wefan ( )** | **Y Fewnrwyd ( )** | **Y Porth Dysgu ( )** |
|---|---|---|---|
| | | | |

Amgylchiadau lliniarol (hefyd cyfeirir atynt fel amgylchiadau esgusodol neu arbennig) yw unrhyw amgylchiadau difrifol y tu hwnt i reolaeth myfyriwr, a allai fod wedi effeithio’n niweidiol ar ei berfformiad; gall hyn gynnwys cyflwyno asesiadau nas rhoddwyd caniatâd i’w cyflwyno yn hwyr neu am beidio â’u cyflwyno o gwbl.

Os yw myfyriwr o’r farn bod ganddo achos o liniaru, dylai gael cefnogaeth i ddilyn y gweithdrefnau sy’n dilyn.

Egwyddorion

Dylai pob myfyriwr sy’n astudio rhaglenni Addysg Uwch yng Ngholeg Gwent wneud pob ymdrech i sicrhau ei fod yn gymwys i astudio a chyflawni asesiad yn unol â chyfarwyddyd y tîm rhaglen.  Hefyd, disgwylir i fyfyrwyr wneud pob ymdrech i gydymffurfio â dyddiadau cyflwyno asesiadau a chwblhau eu rhaglen yn yr amserlen a ddisgwyliwyd.  Fodd bynnag, mae yna adegau pan fo myfyrwyr yn wynebu anawsterau andwyol fydd yn effeithio ar eu cynnydd academaidd.

Mae rheolaeth briodol o amgylchiadau lliniarol sy’n effeithio ar astudiaeth ac asesiad myfyriwr yn bwysig er mwyn sicrhau y cedwir at safonau academaidd, a bod myfyrwyr yn gweld y cânt eu trin yn deg.

Mae myfyrwyr yn gyfrifol am adrodd, mewn modd amserol, am unrhyw amgylchiadau arbennig/lliniarol a all effeithio ar eu canlyniadau, gan ddefnyddio’r gweithdrefnau sy’n cydfynd â’r polisi hwn. Rhaid cyflwyno hawliadau am amgylchiadau lliniarol gyda thystiolaeth briodol, a rhaid i’r amgylchiadau fod yn berthnasol i’r effaith a hawliwyd.  Lle bo’n bosibl, dylid gwneud newidiadau rhesymol i ganiatáu i fyfyrwyr fynd i weithgareddau addysgu a chwblhau gwaith cwrs.

Dylid trin hawliadau am amgylchiadau lliniarol yn deg a chyfartal, ac ni ddylid rhoi myfyrwyr sy’n dangos amgylchiadau lliniarol cael eu rhoi dan anfantais, neu fantais dros fyfyrwyr eraill.

Diffiniad

Amgylchiadau lliniarol yw amgylchiadau sy’n;

- effeithio ar allu myfyrwyr i fynd i asesiad neu gwblhau asesiad neu nifer o asesiadau

- effeithio ar allu myfyrwyr i gwblhau lefel, neu nifer yr unedau y maent wedi cofrestru ar eu cyfer mewn blwyddyn academaidd (hy pan fo myfyriwr yn gofyn am drosglwyddo modd o astudio, ee o lawn amser i ran amser)
- eithriadol
- y tu hwnt i'w rheolaeth
- y gellir eu cadarnhau drwy dystiolaeth annibynnol
- digwydd yn ystod neu yn fuan cyn yr asesiad dan sylw  Gweithdrefn

Lle bo'r angen, dylai myfyriwr ddefnyddio'r weithdrefn estyniadau i ofyn am estyniad o 5 niwrnod gwaith, cyn dyddiad terfyn cyflwyno asesiad. Os nad yw hyn yn bosibl, yna bydd rhaid dilyn gweithdrefn yr amgylchiadau lliniarol.

Os yw myfyrwyr yn teimlo bod ganddynt amgylchiadau lliniarol dilys sydd wedi effeithio ar eu perfformiad neu eu gallu i fodloni dyddiad cyflwyno asesiad, (os na chytunwyd ar estyniad), dylent godi hyn gyda'u Tiwtor Personol neu Arweinydd Rhaglen yn y lle cyntaf.. Bydd ef/hi yn gallu rhoi cymorth i'r myfyrwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r broses, y canlyniadau posibl, a lle bo'n bosibl, dynodi cefnogaeth a fyddai'n helpu'r myfyrwyr i gwblhau gwaith cwrs. Mae'n bosibl y cyfeirir myfyrwyr at y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a gynigir gan y Coleg, er mwyn cael gwybodaeth am wasanaethau cymorth sydd ar gael.

Rhaid i'r myfyriwr lenwi'r Ffurflen Amgylchiadau Lliniarol i wneud cais. Dylid anfon y Ffurflen Amgylchiadau Lliniarol a thystiolaeth gefnogol i'r Arweinydd Rhaglen.

Bydd yr Arweinydd Rhaglen yn ystyried y cais. Efallai y bydd yr Arweinydd Rhaglen yn ymgynghori ag aelodau eraill tîm y rhaglen, gwasanaethau myfyrwyr a'r Rheolwyr Addysg Uwch er mwyn dod i ganlyniad teg, a chyfiawn, nad yw'n rhoi'r myfyriwr dan fantais neu anfantais.

Canlyniadau Posibl

1. **Dim camau gweithredu** - os ystyrir nad yw'r amgylchiadau lliniarol wedi effeithio ar astudiaethau'r myfyriwr neu lle nad yw'r dystiolaeth yn ddilys.
2. **Estyniad i ddyddiad cyflwyno** - os cytunwyd bod yr amgylchiadau lliniarol yn ddilys, ac mae angen i'r dysgwr gyflwyno gwaith erbyn dyddiadau cyflwyno newydd. Sylwer, os dychwelwyd gwaith a farciwyd i'r dysgwyr ac y byddai er lles dysgwyr sy'n gofyn am liniaru gael adborth o'r asesiad hwnnw, gofynnir i'r dysgwr lenwi asesiad gwahanol.
3. **Gwneud ymdrech ar asesiad yn 'ddi-rym' a chaniatáu cyfle i ail wneud yr asesiad** - os na ystyriwyd amgylchiadau lliniarol eisoes, ac y derbynnir y cafodd yr amgylchiadau eithriadol effaith ar berfformiad yr asesiad hwnnw
4. **Perfformiad gwael wedi'i ystyried** - os bydd y myfyriwr eisiau i'r Bwrdd Asesu ystyried yr amgylchiadau lliniarol, er enghraifft, lle'r effeithiodd salwch ar allu'r myfyriwr i gyflawni gwaith i'r un safon â gwaith a gyflwynwyd eisoes, er na wnaeth y dysgwr gyflwyno gwaith erbyn yr amser cyflwyno.

   Yn yr achos hwn, gall Bwrdd yr Arholwyr benderfynu cynyddu dosbarth y dyfarniad ar lwyddiant academaidd lle bo'r canlynol yn berthnasol:

- Mae gan y myfyriwr farc ar y ffin
- ceir tystiolaeth i'r amgylchiadau lliniarol gael effaith y tu hwnt i fodiwlau penodol, gan fod lwfansau eisoes wedi eu gwneud
- nid yw'n bosibl gwneud lwfansau ôl-weithredol ar lefel modiwl ee. oherwydd natur y dull asesu

Gall y Bwrdd Asesu Addysg Uwch hefyd benderfynu gohirio'r penderfyniad, nes y ceir manylion ychwanegol.

Os yw myfyriwr yn mynd i fodiwl, ond ni all sefyll arholiadau neu gwblhau gwaith cwrs oherwydd amgylchiadau lliniarol, gall y myfyriwr:

- Sefyll arholiad atodol neu gwblhau gwaith cwrs cyn cyfarfod y Bwrdd Asesu, neu
- Sefyll arholiad atodol neu gwblhau gwaith cwrs fel cynnig cyntaf, cyn neu yn ystod cyfnod ail sefyll arholiadau

Seiliedig ar Dystiolaeth

Er budd cydraddoldeb a thryloywder, rhaid cael tystiolaeth annibynnol, berthnasol er mwyn cadarnhau'r hawl a wneir dros amgylchiadau lliniarol. Gall hyn gynnwys:

- Tystysgrifau Marwolaeth
- Tystysgrifau Meddygol neu lythyrau gan Feddyg Teulu ● Rhybuddion Cyfreithiol.

Mae tystysgrifau meddygol yn dderbyniol os yw/ydynt yn:

- ymarferydd meddygol sydd wedi gweld y myfyriwr yn ystod neu yn syth wedi cyfnod o salwch wedi'u llofnodi
- nodi'r dyddiad(au) pan aeth y myfyriwr ati i gael cymorth
- darparu gwybodaeth ddigonol heb dorri cyfrinachedd natur a difrifoldeb yr amgylchiadau
- dangos graddfa a hyd unrhyw analluogrwydd

Sylwer. Nid yw tystysgrifau meddygol a lofnodwyd gan aelod o'r teulu yn dderbyniol

Gellir adrodd am amgylchiadau nad ydynt yn rai meddygol (ee. profedigaeth) yn ysgrifenedig, gyda disgrifiad o'r amgylchiadau, pryd y digwyddodd hwynt, a lle bo'n bosibl, eu hyd.

Bwrdd Asesu Addysg Uwch

Er mwyn pasio modiwl, mae angen i fyfyrwyr fodloni canlyniadau dysgu penodol. Bydd Arweinydd y Rhaglen yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Asesu. Rhaid iddynt gael eu bodloni y cyflawnwyd canlyniadau dysgu penodol cyn caniatáu i'r myfyriwr wneud cynnydd i'r cam nesaf, neu wneud dyfarniad.

Mae gan y Bwrdd Asesu'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol am amgylchiadau lliniarol, os nad yw'r ddogfennaeth wreiddiol yn ddigonol, neu os na ystyrir fod yr amgylchiadau yr adroddwyd amdanynt yn ddigon i warantu ystyriaeth arbennig

Apêl

Os dymuna'r myfyriwr apelio yn erbyn cais a wrthodwyd, yn gyntaf, bydd y Pennaeth Addysg Uwch yn asesu a oedd y dystiolaeth annibynnol wedi ategu'r dyddiadau a nodwyd ar y Ffurflen Amgylchiadau Lliniarol yn llawn. Os oes unrhyw agwedd ar y Ffurflen yn anghyflawn, neu os oes angen tystiolaeth bellach, cysylltir â'r myfyriwr a'r Arweinydd Rhaglen i ofyn am yr wybodaeth hon, neu ddiwygio'r ffurflen. Os nad yw'r dystiolaeth o hyd yn bodloni meini prawf cymeradwyo yn llawn, hysbysir y myfyriwr a'r arweinydd rhaglen yn ffurfiol yn ysgrifenedig, a nodir hynny yn y cofnodion er mwyn adlewyrchu gwrthod y cais yn derfynol a'r rhesymau perthnasol.

Yn arferol, ni ystyrir hawliadau ôl-weithredol amgylchiadau lliniarol, oni bai y bu rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny ar y pryd. Byddai hyn yn arferol ond oherwydd nad oedd modd i'r myfyriwr ddatgelu'r amgylchiadau ymlaen llaw, oherwydd dim ond rŵan y gwnaed diagnosis ar y cyflwr meddygol. Sylwch, oni bai y ceir amgylchiadau eithriadol fel yr amlinellwyd uchod, ystyrir y bydd hawliadau amgylchiadau lliniarol a gyflwynwyd yn ôlweithredol yn annilys.

Enghreifftiau o amgylchiadau y gellid eu hystyried fel rhai dilys yw:

- Gorfod mynd i ysbyty, cael llawdriniaeth(au)
- Problemau Iechyd
- Problemau personol neu seicolegol y mae'r myfyriwr yn derbyn gwasanaeth cwnsela yn ei gylch, neu cyfeiriwyd ef at gwnselydd neu ymarferydd cymwys arall
- Profedigaeth
- Damwain fawr neu anaf, anhwylderau acíwt neu gyflyrau sy'n cyd-fynd â dyddiad cyflwyno aseiniad neu arholiad neu brawf, neu eu bod yn para'n ddigon hir i gael effaith ar ran pwysig o dymor
- Problem Iechyd meddwl
- Achos o fwrgleriaeth diweddar/dwyn/neu ddamwain car difrifol
- Gwasanaeth ynadon na ellir ei ohirio
- Diagnosis hwyr, er enghraifft, dyslecsia, sy'n arwain at ddim cymorth neu ddarpariaeth arholiadau

Enghreifftiau o amgylchiadau na ellid eu hystyried yn arferol fel rhai dilys yw:

- Problemau cyfrifiadurol tebyg i anallu i uwchlwytho aseiniadau i Turnitin
- Problemau rheoli amser (ee. dyddiadau cyflwyno sy'n gwrthdaro)
- Apwyntiadau (cyfreithiol, meddygol ayb) y gellid fod wedi eu haildrefnu
- Problemau gofal plant y gellid fod wedi eu rhagweld
- Damweiniau neu salwch sy'n effeithio ar berthnasau neu ffrindiau

(oni bai eu bod yn ddifrifol, neu'r myfyriwr yw'r unig ofalwr)

- Pryder amhenodol, ychydig o iselder ysbryd neu straen arholiadau
- Peswch, annwyd, haint yn yr uwch lwybr anadlol, dolur gwddw, haint  feirws ysgafn, oni bai yr oedd y salwch ar ei waethaf ar adeg arholiad, prawf ar ddiwedd modiwl neu brawf yn y dosbarth, ac mae'r dystiolaeth gadarnhaol yn cyfeirio at yr effaith ar berfformiad y myfyriwr
- Problemau ariannol (ar wahân i achosion o galedi eithriadol)
- gwyliau, symud tŷ, dathliadau teulu

Ffurflen Gais am Amgylchiadau Lliniarol

***Manylion Personol***

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw: | | Dyddiad Geni | |
| Cyfeiriad: | | Rhif Adnabod y Myfyriwr | |
| | | Rhaglen (a blwyddyn) yr astudiaeth | |
| Rhif cyswllt | | Cyfeiriad e-bost: | |

***Amgylchiadau Lliniarol***

| |
|---|
| Rhaid cyflwyno isod fanylion y rhesymau dros gyflwyno yn hwyr (CH), heb gyflwyno (HG) neu berfformiad gwael (PG). Nodwch natur y dystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r cais hwn, os gwelwch yn dda |
| |

***Cyfnod Amser***

| | | | |
|---|---|---|---|
| O: | | Hyd: | |
| | | | |
| Wrth ymgeisio am Amgylchiadau Lliniarol, rhaid i chi barhau i weithio ar eich asesiad a'i gyflwyno cyn gynted â phosibl. | | | |

***Asesiad y Modiwl(au) yr effeithiwyd arno/arnynt***

| Meini Prawf: CH/HG/ PG | Teitl y Modiwl | Rhif a Math yr Asesiad | % y gwaith a gwblhawyd eisoes | Dyddiad cyflwyno gwreiddiol yr asesiad | Dyddiad newydd cyflwyno'r asesiad (os cyflwynwyd cyn y dyddiad cyflwyno) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

- CH = Cyflwyno yn Hwyr (Cyflwynwyd yr asesiad, ond gwnaed hynny wedi'r dyddiad cyflwyno gwreiddiol, a'r estyniad heb ei gymeradwyo)
- HG= Heb Gyflwyno (Asesiad heb ei gyflwyno hyd yma, ac ni chymeradwywyd estyniad)
- PG= Perfformiad Gwael (cyflwynwyd yr Asesiad yn brydlon, ond gallai amgylchiadau lliniarol fod wedi effeithio ar eich perfformiad. Gall ffurflen gais PG effeithio ar ganlyniad eich gradd, a bydd yn ffurfio rhan o'r drafodaeth pan fydd y Bwrdd Asesu yn ystyried eich proffil.

***Datganiad y Myfyriwr***

Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth uchod yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n deall efallai y bydd angen i mi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig bellach er mwyn cefnogi fy nghais. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y nodiadau canllaw cyn llenwi'r ffurflen hon. Rwyf wedi hysbysu fy Nhiwtor Personol neu Arweinydd Rhaglen fy mod yn gwneud y cais hwn.

***Llofnod y Myfyriwr:***

***Dyddiad:***

***Canlyniad (At ddefnydd y Coleg yn unig)***

| ***Penderfyniad yr Arweinydd Rhaglen*** |
|---|
| |